# Mesuryddion Rhagdalu a Thlodi Tanwydd: Chwefror 2024

**Mae ein hymchwil ddiweddaraf yn tynnu sylw at sut mae defnyddwyr mesuryddion rhagdalu yng Nghymru yn mynd yn rheolaidd heb hanfodion i gadw mewn cysylltiad â'u cyflenwad ynni.**

Yn ystod 2023, cynyddodd nifer y defnyddwyr mesuryddion rhagdalu yng Nghymru a drodd at Gyngor ar Bopeth am gymorth oherwydd na allent fforddio ychwanegu at eu mesuryddion **73% o'i gymharu â 2022.**

Mae'r pwysau sy'n wynebu defnyddwyr mesuryddion rhagdalu yn cael eu cadarnhau gan ein hymchwil newydd.[1] Mae traean o ddefnyddwyr mesuryddion rhagdalu yng Nghymru wedi cael eu **datgysylltu** o'u cyflenwad ynni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd na allent fforddio ychwanegu ato, gydag 1 o bob 8 (13%) yn **mynd heb ynni** hanfodol am wythnos neu fwy.

Mae hyn yn gadael cartrefi'n methu â choginio bwyd poeth, cadw cartref yn gynnes, cadw cysylltiad â'r rhyngrwyd, neu hyd yn oed gadw offer meddygol hanfodol i fynd. Mae hyn hefyd yn cael effaith sylweddol ar iechyd pobl. O'r defnyddwyr hynny sydd wedi cael eu datgysylltu, dywedodd 72% ei fod wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl, a dywedodd 43% ei fod wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd corfforol.

Er bod disgwyl i brisiau ynni ostwng rhywfaint o fis Ebrill ymlaen, byddant yn dal i fod yn llawer uwch nag yng Ngaeaf 2021/22. Mae defnyddwyr mesuryddion rhagdalu yn parhau i fod yn arbennig o agored i **heriau deuol** prisiau ynni cynyddol a chostau byw eraill.  Nid yw rhagdalu am eich ynni ychwaith yn caniatáu i aelwydydd ledaenu cost eu hynni dros y flwyddyn.

## Mae ein tystiolaeth ddiweddaraf yn dangos:

Mae **14% o ddefnyddwyr mesuryddion rhagdalu yng Nghymru** yn ei chael hi'n anodd talu am hanfodion misol fel bwyd, rhent, taliadau morgais, a biliau cartref eraill.

Nid oedd **1 o bob 7** o ddefnyddwyr mesuryddion rhagdalu yn gallu ychwanegu at eu hynni **o leiaf unwaith y mis**

Mae **dwy ran o dair (63%) o'r holl ddefnyddwyr mesuryddion rhagdalu** yn **poeni am gadw at eu mesurydd** hyd at fis Ebrill, gan gynnwys **28% sy'n poeni'n fawr.**

Yn 2023 fe wnaethom helpu mwy na **8,000 o bobl** yng Nghymru i gael **talebau tanwydd** ac ym mis Ionawr 2024 yn unig rydym wedi helpu **1,690 o bobl**

# Yr hyn rydym yn ei weld yng Nghymru

cyngor ar bopeth citizens advice

1. **Mae pobl sy'n cael trafferth ychwanegu hefyd yn mynd heb hanfodion eraill:**

Dangosodd canfyddiadau ein hadnodd Mynegai Coch Cenedlaethol fod **250,000 o bobl** yng Nghymru yn **byw ar gyllideb negyddol** ar hyn o bryd, gyda **436,000 arall ond yn cael dau ben llinyn ynghyd drwy dorri'n ôl i lefelau anniogel.** Ymhlith defnyddwyr mesurydd rhagdalu, gwelsom fod yn **rhaid i lawer dorri yn ôl neu fynd heb i gadw mewn cysylltiad â'u hynni:**

- Mae **33% wedi lleihau gwariant ar fwyd** ac mae **16% wedi hepgor prydau bwyd**
- **12% wedi cael cawodydd oer**
- **32% yn torri nôl ar anrhegion a dathliadau fel penblwyddi a gwyliau crefyddol**

2. **Dyledion ynni a thlodi tanwydd yng Nghymru:**

Yr aelwydydd rydyn ni'n eu helpu fwyaf gyda chyngor ar ddyledion ynni yw aelwydydd un person a thenantiaid cymdeithasol.

- Mae **1 o bob 9** (11%) o bobl yng Nghymru mewn **dyled** ar eu **biliau ynni**. Ymhlith ein cleientiaid, cynyddodd nifer y bobl yr ydym wedi'u helpu gyda chyngor ar ddyledion ynni **46.6%** rhwng Ionawr 2023 ac Ionawr 2024.
- Gyda gosodiadau mesuryddion rhagdalu gorfodol bellach yn ailddechrau ar gyfer 6 cyflenwyr ynni, mae **mwy o bobl mewn perygl o gael eu datgysylltu** o ganlyniad i ddyled ynni.
- Gall canlyniadau mynd heb wres neu drydan fod yn **arbennig o beryglus i bobl ag anableddau neu gyflyrau iechyd tymor hir** ond y grŵp hwn rydym yn gweld y mwyaf gyda materion o beidio â gallu ychwanegu at eu mesuryddion. Yn 2023 gwelsom **86%** yn fwy o bobl ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor a oedd yn ei chael hi'n anodd talu na'r rhai heb anabledd neu gyflwr iechyd.

# Beth sydd angen digwydd:

Er y bydd y cap ar brisiau ynni yn gostwng rhywfaint ym mis Ebrill, mae prisiau cyfanwerthu yn parhau i fod yn gyfnewidiol ac mae rhai newidiadau yn y system ynni yn debygol o roi pwysau cynyddol ar filiau yn y blynyddoedd i ddod. Mae angen atebion parhaol sy'n torri cylch argyfwng y gaeaf.

**Rydym am i Lywodraeth Cymru sicrhau bod:**

- Wrth i'r elfen newydd o'r Rhaglen Cartrefi Cynnes a arweinir gan alw dod yn weithredol o fis Ebrill, cynhelir **ymgyrch codi ymwybyddiaeth ragweithiol** sy'n targedu'r aelwydydd incwm isel sydd fwyaf angen gymorth.
- Mae'r rhaglen yn **defnyddio'r holl ffynonellau cyllid** i sicrhau'r budd mwyaf posibl i aelwydydd cymwys, gan gynnwys trosoledd cymorth sydd ar gael o dan **Gynllun ECO Flex.**
- Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu system '**budd-daliadau Cymreig**' fwy cydlynol yn parhau yn gyflym dros y flwyddyn i ddod, er mwyn i aelwydydd sy'n wynebu pwysau ariannol, dyled a chaledi barhau i hawlio'r holl gymorth y mae ganddynt hawl iddo.

**Mae Cyngor ar Bopeth yn galw ar Lywodraeth y DU i:**

- Diwygio'r Gostyngiad Cartrefi Cynnes i gyrraedd mwy o bobl ar incwm isel a chynnig lefelau uwch o gymorth ariannol i'r rhai sydd â'r anghenion ynni uchaf

*Os oes gennych gwestiynau neu os hoffech fwy o wybodaeth am gynnwys y briff hwn, cysylltwch â: policy.cymru@citizensadvice.org.uk*

[1]1Ffigurau o ddata'r arolwg yn seiliedig ar arolwg cynrychioliadol o 4,338 o oedolion (18+) ym Mhrydain Fawr a gynhaliwyd gan Yonder Data Solutions ar gyfer Cyngor ar Bopeth gyda sampl uwch ar gyfer Cymru (Cyfanswm = 665 oedolyn; 227 o ddefnyddwyr PPM). Gwaith maes a gynhaliwyd rhwng 6 a 18 Rhagfyr 2023.